# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Mawrth 2017

Amser: 09.00 - 12.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3853

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>David Melding AC (yn lle Janet Finch-Saunders AC)<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid<br>Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru<br>Lisa James, Llywodraeth Cymru<br>Carl Sargeant AC<br>John Rees, Llywodraeth Cymru<br>Katie Wilson, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Christopher Warner (Clerc)<br>Naomi Stocks (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2. Roedd David Melding AC yn dirprwyo ar ran Janet Finch-Saunders AC ar gyfer eitemau 3 a 6.

1.3. Datganodd yr Aelodau a ganlyn fuddiannau perthnasol fel aelodau o undebau:

- John Griffiths AC;
- Jenny Rathbone AC;
- Joyce Watson AC;
- Rhianon Passmore AC;
- Siân Gwenllian AC.

## 2 Craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – diwygio Llywodraeth Leol

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

- Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol
- Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol

## 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth 1: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
- John G Rees, Rheolwr y Bil
- Katie Wilson, Cyfreithiwr

2.2 Yn ystod y sesiwn, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i:

- Ddarparu'r ffigurau ar unrhyw gynnydd yn y stoc tai cymdeithasol mewn ardaloedd awdurdodau lleol lle y mae'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael wedi eu hatal dros dro o dan y Mesur Tai (Cymru) 2011;
- Darparu nodyn ar y weithdrefn a'r meini prawf cymhwyster ar gyfer ceisiadau am ataliadau dros dro o dan Fesur Tai (Cymru) 2011;
- Darparu drafft o'r ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth i denantiaid a darpar denantiaid sy'n ofynnol o dan adran 8 o'r Bil;
- I egluro pwrpas a'r effaith a fwriadwyd ar gyfer Adran 2 ac Adran 4 o'r Bil.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn perthynas â Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

4.1.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

### 4.2 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

4.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Bil yr Undebau Llafur (Cymru).

### 4.3 Gwybodaeth Ychwanegol gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 2 Chwefror 2017

4.3.a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth Ychwanegol gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 2 Chwefror 2017

### 4.4 Gwybodaeth Ychwanegol gan Bartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru mewn perthynas â ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru

4.4.a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Bartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru mewn perthynas â ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.

### 4.5 Adroddiad gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol: Adroddiad Naratif bob chwe mis ar Wasanaethau Plant

4.5.a Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol: Adroddiad Naratif bob chwe mis ar Wasanaethau Plant.

### 4.6 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith mewn cysylltiad â thlodi yng Nghymru

4.6.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith mewn cysylltiad â thlodi yng Nghymru.

### 4.7 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn cysylltiad â thlodi yng Nghymru

4.7.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn cysylltiad â thlodi yng Nghymru.

### 4.8 Nodyn o drafodaethau'r grŵp ffocws mewn perthynas â Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

4.8.a Nododd y Pwyllgor y nodyn o drafodaethau'r grŵp ffocws mewn cysylltiad â Bil yr Undebau Llafur (Cymru).

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru): trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 3.

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 3 a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet am y materion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 7 Craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – diwygio Llywodraeth Leol: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2.

## 8 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) - Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chymeradwyodd yr adroddiad yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 9 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru – trafod yr adroddiad drafft

9.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chymeradwyodd yr adroddiad yn amodol ar rai mân newidiadau.